# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Y Diweddaraf ar Gynnydd Caffael Cyhoeddus

### Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) ym mis Rhagfyr 2012, gan bennu disgwyliadau clir o ran sut y dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnal eu gweithgareddau caffael.

2. Mae Llywodraeth Cymru, sector y Gwasanaeth Iechyd Gwlad a phob cyngor wedi cadarnhau eu hymrwymiad i fabwysiadu egwyddorion WPPS.

### Effaith Datganiad Polisi Caffael Cymru

3. Canolbwyntiwyd ar ysgogi mabwysiadu a monitro effaith naw egwyddor WPPS.

### 3.1 Profion Ffitrwydd Caffael

3.1.1 Mae profion ffitrwydd caffael yn darparu asesiad o lefel gyfredol aeddfedrwydd caffael pob sefydliad y graddau y caiff polisi caffael Cymru ei fabwysiadu; ac yn amlinellu cynllun datblygu i wella gallu.

3.1.2 Mae pob cyngor wedi cynnal profion ffitrwydd caffael. Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu ac mae swyddogion Gwerth Cymru yn cefnogi'r sector i fynd i'r afael â'r rhain. Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r camau a argymhellir ar gyfer sector llywodraeth leol.

3.1.3 Mae'r sector GIG yng Nghymru wrthi'n cynnal ei adolygiad ac mae fersiynau terfynol y cynlluniau yn cael eu llunio i ddarparu profion ffitrwydd ar gyfer y sector Addysg Uwch a Phellach.

### 3.2 Gallu Caffael Proffesiynol

3.2.1 Mae gallu cryf yn hanfodol ar gyfer rheoli caffael yn effeithiol a defnyddio polisi Cymru yn fedrus.

3.2.2 Dyfarnwyd contract hyfforddi cwrs byr newydd yr hydref diwethaf a bydd polisi caffael Cymru yn cael ei gynnwys drwy gydol y rhaglen hon.

3.2.3 Mae 28 o hyfforddeion caffael wedi'u darparu drwy brosiect Defnyddio Doniau Cymru ac mae Llywodraeth Cymru yn helpu 42 o swyddogion caffael ledled Cymru i gael cymwysterau proffesiynol.

### 3.3 Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

3.3.1 Gwerth am arian yw'r cyfuniad gorau o gostau oes cyfan, gan gwmpasu arbedion effeithlonrwydd; canlyniadau o ansawdd da; budd i gymdeithas a'r economi; a lleihau niwed i'r amgylchedd.

3.3.2 Mae'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd (SRA) yn gymwys i bob contract Llywodraeth Cymru a'r GIG sydd dros £25,000 a'i ddefnyddio'n gynyddol ar draws y sector llywodraeth leol. Mae'r SRA yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau caffael yn ystyried effaith hirdymor cyfuno'r buddion.

### 3.4 Buddion Cymunedol

3.4.1 Mae cyflawni Buddion Cymunedol yn ystyriaeth hanfodol ym mys caffael.

3.4.2 Mae offeryn mesur wedi'i ddatblygu sy'n mesur y buddion economaidd-gymdeithasol a hyfforddiant a gyflawnir i brentisiaid. Mae'r 28 prosiect cyntaf a gwblhawyd, sydd werth £360m, yn dangos bod 84% wedi ail-fuddsoddi yng Nghymru. Aeth £95.4m yn uniongyrchol ar gyflogau i ddinasyddion Cymru a £216m gyda busnesau yng Nghymru, 78% ohonynt yn fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Cafodd 517 o bobl o dan anfantais gymorth i gyflogaeth, gan dderbyn dros 13,000 o wythnosau mewn hyfforddiant.

### 3.5 Cystadleuaeth Agored a Hygyrch

3.5.1 Rhaid i ddulliau caffael roi cyfleoedd i gyflenwyr lleol llai gystadlu ar gyfer contractau cyhoeddus.

3.5.2 Mae Llywodraeth Cymru, y GIG a sectorau'r llywodraeth leol wedi ymrwymo i ddefnyddio dull SQuID ar yfer dewis cyflenwyr. Mae hyn wedi lleihau'r rhwystrau ac mae contractwyr o Gymru bellach yn ennill 75% o bob dyfarniad adeiladu mawr drwy GwerthwchiGymru, cynnydd o tua 30% ers cyflwyno SQuID.

3.5.3 Darperir y SQuID fel cyfleuster ar-lein eleni. Disgwylir i Gyfnod 1, cyfres gyffredin o gwestiynau, gael ei lansio ym mis Mai, gyda storfa ar gyfer ymatebion cyflenwyr ar gael yn yr hydref.

3.5.4 Mae nifer yr hysbysebion ar gyfer cyfloed contract o dan y trothwy Ewropeaidd ar GwerthwchiGymru yn parhau i dyfu ac mae bellach yn cyfrif am 81% o'r holl gyfleoedd a hysbysebwyd. Mae gwelededd y contractau hyn yn hollbwysig ar gyfer cyflenwyr llai a lleol a sefydliadau'r trydydd sector.

### 3.6 Prosesau Safon Syml

3.6.1 Dylai prosesau caffael fod yn agored ac yn dryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol sy'n helpu i leihau cymhlethdod, costau ac amserlenni ar gyfer cyflenwyr.

3.6.2 Drwy integreiddio'r SQuiD gyda'r Gwasanaeth eGaffael, mae cyflenwyr wedi gallu storio 144,000 o gwestiynau cyn-gymhwyso er mwyn eu hailddefnyddio.

3.6.3 Mae defnydd o Gyfrifon banc Prosiect wedi'i gyflwyno a fydd yn helpu i sicrhau bod y cyflenwyr sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi yn cael taliad mewn da bryd.

### 3.7 Cydweithio

3.7.1 Ym mis Tachwedd 2013, crëwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) i ddwyn ynghyd y gwaith o gaffael gwariant cyffredin ac ailadroddus ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ar sail 'unwaith i Gymru'. Mae pob sector – Llywodraeth Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Iechyd, addysg a Gwasanaethau brys – wedi datgan eu hymrwymiad i Bolisi Caffael Cyhoeddus Cymru drwy gofrestru i ddefnyddio contractau NPS a gwasanaethau Caffael proffesiynol.

3.7.2 Mae gan NPS darged i gyflawni arbedion o £25m unwaith y bydd yn gweithredu'n llawn gyda chwmpas presennol yn cwmpasu 6 'Uwch Gategori' o wariant cyffredin ac ataliol.

- TGCh a Thelathrebu
- Deunydd adeiladu a Rheoli Cyfleusterau
- Gwasanaethau Pobl
- Fflyd
- Gwasanaethau Proffesiynol
- Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfleustodau

3.7.3 Mae'r NPS wedi cynnwys egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru yn ei holl waith. Yn gyfochrog â'r gorchymyn i gyflawni arbedion i Gymru, bydd NPS yn nodi cyfleoedd cadwyn cyflenwi ar gyfer busnesau Cymru ac yn canolbwyntio ar leihau rhwystrau, yn enwedig ar gyfer cwmnïau llai a sefydliadau'r trydydd sector, i gystadlu ar gyfer cyfleoedd am gontractau.

3.7.4 Yn unol â'r amcan hwn, mae'r NPS eisoes wedi mynd i'r farchnad gyda chaffael i ddyfarnu fframwaith ar gyfer Gwasanaeth EffeithIonrwydd Adnoddau lle cafodd y broses gaffael ei strwythuro i annog busnesau bach i gynnig am ddarparu gwasanaethau sy'n cyfeirio at eu harbenigedd craidd. Roedd y broses gaffael yn agored, a leihaodd y rhwystrau ar gyfer nifer o gyflenwyr yn y sector hwn gan annog cyfraddau ymateb uchel gan fusnesu bach a chanolig a busnesau micro. Daeth cyfanswm o 94 o gynigion i law, ac roedd 50% ohonynt o fusnesau bach a chanolig yn seiliedig ar Gymru.

3.7.5 Bydd NPS hefyd yn rhoi hysbysiad cynnar i gyflenwyr i sicrhau bod ymwybyddiaeth ar raddfa eang o gyfleoedd newydd. Lle y bo'n bosibl, cyhoeddir Hysbysiadau Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PINs) sy'n rhoi rhybudd ymlaen llaw o rhwng 3 a 6 mis o ddechrau'r broses gaffael. Mae swyddogion hefyd yn gweithio'n agos gyda Busnes Cymru i annog a helpu busnesau i dendro ar gyfer cyfleoedd yn y sector cyhoeddus drwy gynnal digwyddiadau cyflenwyr ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau y gall Busnes Cymru gynnig.

3.7.6 O ran ymgysylltu â'r Trydydd Sector yn ehangach, mae'r NPS wedi gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

3.7.7 Un o ganlyniadau'r broses ymgysylltu yw'r arweiniad a'r cymorth a ddarparwyd gan NPS ar gaffael porth e-ddysgu sydd wedi helpu Sgiliau er Cyfiawnder, sefydliad o'r Trydydd Sector i ddod yn awdurdod contract ar gyfer y porth a bydd yn caniatáu iddynt gyflenwi'r gwasanaeth i bob awdurdod lleol yng Nghymru.

3.7.8 Ar 11 Mehefin, bydd Rhaglen Categori Camau Cyflym Deunyddiau Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau yn cael ei lansio a fydd yn targedu gwerth dros £5 miliwn o arbedion yn uniongyrchol yn unol i gyllidebau sefydliadau aelod NPS, gan alluogi'r arbedion hyn i gael eu hailgyfeirio at wasanaethau rheng flaen ar gyfer dinasyddion Cymru. Dyma un o raglen o weithgareddau a fydd yn cael ei lansio dros yr ychydig fisoedd nesaf.

3.7.9 Rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Chwefror 2014, drwy symud contractau presennol, mae’r NPS wedi cyflawni arbedion gwerth £1,211,848.

**3.8 Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesedd**

3.8.1 Mae siarad yn fuan â chyflenwyr yn helpu i gyflawni atebion arloesol i helpu i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

3.8.2 Ar y cyd â’r Bwrdd Strategaeth Technoleg, mae’r prosiect Defnyddio Doniau Cymru wedi darparu cymorth grant gwerth £100k i sector y GIG yng Nghymru er mwyn iddynt ymgysylltu â busnesau i ddatblygu atebion sy’n ysgogi gwelliant i wasanaeth.

**3.9 Mesur ac Effaith**

3.9.1 Dylid monitro perfformiad caffael a dylid rhannu enghreifftiau o arfer da.

3.9.2 Bydd y Bwrdd Caffael yn defnyddio canlyniadau’r rhaglen Prawf Ffitrwydd Caffael i lunio ei gynllun gweithredu er mwyn datblygu gwelliannau ym maes caffael.

**Polisi Caffael Moesol**

4. Gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio ei allu cyfunol i ysgogi ymddygiad cyfrifol gan fusnesau.

5. Cyhoeddwyd cyfeiriad polisi sy’n galluogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio caffael i helpu i waredu rhestrau gwaharddedig. Yn ogystal, cyflwynwyd Cyfrifon Banc Prosiect ym maes adeiladu a fydd yn diogelu buddion isgontractwyr sy’n agored i niwed.

**Llywodraethu**

6. Yn dilyn argymhellion Adolygiad John McClelland o lywodraethu caffael ledled Cymru, mae strwythur llywodraethu y cytunwyd arno bellach ar waith.

7. Sefydlwyd Bwrdd Caffael wedi’i ailgyfansoddi i arsylwi’r agenda diwygio caffael yng Nghymru.

8. Caiff yr NPS ei oruchwylio gan Fwrdd Gweithredu, gyda chynrychiolaeth o bob sector. Penodwyd Cadeirydd annibynnol, Steve Morgan, sef Cyfarwyddwr presennol Offer Amddiffyn a Gweithrediadau Masnachol Cymorth yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

9. Mae’r NPS yn atebol i’r Bwrdd sy’n cael adroddiadau cymorth a dangosfyddrau ar bethau allweddol i’w cyflawni gan gynnwys arbedion a gyflawnwyd, ardoll a gynhyrchwyd a nifer o (PINS) a gyhoeddwyd.

10. Sefydlwyd Grŵp Cyflawni sy’n gorwedd o dan y Bwrdd NPS, gyda chynrychiolaeth gan arweinwyr Uwch Gaffael o bob rhan o Gymru. Bydd y grŵp yn sicrhau bod y strategaethau categori a’r cynlluniau arbedion a ddatblygwyd gan yr NPS yn gadarn ac yn gallu cael eu cyflawni. Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod cyntaf ar 28 Ebrill a bydd yn cyfarfod bob mis.

**Casgliad**

11. Mae tystiolaeth bod caffael da yn arwain at effeithlonrwydd gan greu buddion lleol. Ategir hyn gan gyfeiriad presennol polisi caffael Cymru.

12. Mae gan bartneriaid cymdeithasol rhan allweddol i'w chwarae i helpu i sicrhau buddion pellach o wariant caffael ar y cyd y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n bwysig cynnal deialog a chael adborth er mwyn cynnal y cynnydd hwn.

**Jane Hutt, AC**

**Y Gweinidog Cyllid**